# Gweld y blas!



M ae pobl fel y cogydd enwog Heston Blumenthal yn dadlau mai bwyta yw un o'r ychydig bethau rydyn ni'n ei wneud gan ddefnyddio'n synhwyrau i gyd. Byddwn yn dweud pethau fel, 'Mae hwnna'n edrych yn flasus,' a byddwn yn glafoerio a disgwyl gwledd er enghraifft. Er mwyn deffro'r synhwyrau ymhellach, mae e'n gweini rhai prydau gyda chlustffonau er mwyn i chi glywed synau fel popian, adar yn canu, bacwn yn ffrio neu donnau'r môr. Mae'n chwistrellu aroglau lafant, leim, mwsogl neu fwg barbeciw i'r awyr.  Mae e hefyd yn enwog am baratoi prydau bwyd sy'n annisgwyl o ran blas, e.e. uwd malwod, hufen iâ bacwn ac wy a phridd siocled. Bwyd sy'n chwarae gyda'ch disgwyliadau ac yn eich twyllo i gredu ei fod yn rhywbeth arall.

Ond mae tai bwyta Dans le Noir yn Llundain, Paris a Barcelona yn wahanol am eu bod nhw'n gweini eu bwyd nhw yn y tywyllwch ac yn cynnig profiad heb y synnwyr 'gweld'. Mae gwyddonwyr yn dadlau ein bod yn defnyddio ein synhwyrau eraill, gan gynnwys blasu, yn fwy effeithlon os oes un  synnwyr yn cael ei golli. Y gwir yw ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n rhoi llawer o bwyslais ar sut rydyn ni'n gweld pethau. Cymrwn 80% o'n gwybodaeth drwy ein llygaid; ffonau symudol, cyfrifiaduron, hysbysebion a theledu, er enghraifft. Felly mae bwyta heb weld beth sydd o'n blaen yn siŵr o fod yn brofiad diddorol ac anghyfforddus i lawer.

Cyn mynd i mewn, rhaid gadael pob ffynhonnell goleuni mewn locer. Mae gadael ffôn, oriawr neu dabled yn anesmwytho llawer o bobl ond mae hyn i gyd yn rhan o'r profiad. Byddwch wedyn yn cael eich tywys i'r bwrdd gan berson dall (mae 50% o'r rheiny sy'n gweithio yno wedi eu cofrestru'n ddall). Os oes angen sylw arnoch, rhaid i chi alw'r gweinydd personol wrth ei enw. Allwch chi ddim gwneud arwydd; mae'n dywyll fel bol buwch yno ac maen nhw'n ddall beth bynnag. Mae'r sawl sy'n gweini yn dysgu'r ciniawyr sut i wneud pethau fel arllwys diod yn y tywyllwch ac maent yn sgwrsio'n rhydd am bethau fel eu bywyd o ddydd i ddydd. Er mwyn i hyn fod yn llwyddiannus, nid oes hawl bod yn swnllyd ond mae band yn chwarae yno weithiau.



Mae'n brofiad cymdeithasol iawn. Byrddau cymunedol sydd yno a byddwch yn eistedd ar bwys pobl nad ydych yn eu hadnabod a heb eu gweld. Gallent fod yn enwog. Gallent fod yn hardd neu'n blaen eu golwg, yn hen neu'n ifanc, yn ffasiynol neu ddim, o unrhyw gefndir ethnig... Nid yw'n bosib beirniadu cyd-fwytawyr ar sail eu golwg.

A'r bwyd? Mae'r un ymdrech mae'n debyg yn mynd i wneud y bwyd i edrych yn dda ond y gwahaniaeth fan hyn yw na fydd y ciniawyr yn ei weld! Mae'r cynhwysion yn cael eu cyflwyno ar wahân er mwyn ei wneud yn haws adnabod y gwahanol flasau. Yn y bwyty yn Llundain mae pedair bwydlen fel arfer a rhaid dewis un, ond fyddwch chi ddim yn cael gwybod beth yn hollol sydd yno - bwydlen wen (syrpreis i'r rhai mentrus); coch (cig); glas (pysgod a bwyd môr); gwyrdd (llysieuol). Mae'r ciniawyr wedyn yn cael hwyl yn dyfalu beth maent yn ei roi yn eu cegau. Ar ddiwedd y pryd, mae pawb yn cael eu tywys yn ôl i'r goleuni, yn cael gweld eu cyd-fwytawyr ac yn cael gwybod beth yn hollol oedd ar y fwydlen.

Menter fasnachol nid elusennol yw hon ond mae'n cynnig cyfleoedd a chyflogaeth tymor-hir i ddeillion sy'n dymuno gweithio ym maes lletygarwch. Mae hefyd yn cynnig ymwybyddiaeth o ddallineb yn gyffredinol ac yn herio'r ffyrdd rydym yn 'gweld' y byd.

**Darllen**

Wedi i chi ddarllen y darn "Gweld y blas!" yn ofalus atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

1. A ydy'r gosodiad am fwyty *Dans le Noir* yn gywir neu'n anghywir?
(Rhowch ✓ yn y blwch priodol.)

*(Adalw gwybodaeth)*

| | cywir | anghywir |
|---|---|---|
| Mae pawb sy'n gweithio yn y bwyty yn ddall. | | |
| Mae'r sawl sy'n gweini yn dweud yn syth wrth y ciniawyr beth maen nhw'n ei fwyta. | | |
| Nid bwriad y bwyty yw gwneud arian. | | |
| Mae sut mae'r bwyd yn edrych yn cael sylw gan y cogyddion. | | |

2. Pam nad oes hawl bod yn swnllyd yn y bwyty?
(Rhowch ✓ yn y blwch priodol.)

*(Adalw gwybodaeth)*

a. er mwyn canolbwyntio ar y bwyd ☐
b. er mwyn gwrando ar y band ☐
c. er mwyn cyfathrebu gyda'r bobl sy'n gweini ☐
ch. er mwyn aros yn y tywyllwch ☐

3. 'Nid yw'n bosib beirniadu cyd-fwytawyr yn ôl eu golwg', yn ôl awdur yr erthygl. Mae hyn yn stopio beth?
(Rhowch ✓ yn y blwch priodol.)

*(Adalw gwybodaeth)*

a. rhagfarn ☐
b. rhagweld ☐
c. rhagrith ☐
ch. rhaglenni ☐

4. Pa brofiadau sy'n gwneud bwyta yn *Dans le Noir* yn wahanol i fwyta mewn bwyty cyffredin?

*(Adalw gwybodaeth)*

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

___________________________________________

5. Cymharwch agwedd Heston Blumenthal at fwyta ac agwedd perchnogion *Dans le Noir*. Cofiwch roi enghreifftiau wrth sôn am y ddau brofiad.

*(Cymharu)*

6. Cwestiwn a. Beth yw bwriad y darn yn eich barn chi? b. A ydy'r darn yn ddiduedd?

**Llafaredd**

7. Mewn grŵp, trafodwch pa un o'r pum synnwyr yw'r mwyaf gwerthfawr. (Opsiwn: Gallech ddewis un synnwyr ar hap a mynd ati i ddadlau achos y synnwyr hwnnw yn eich grŵp – pob un â synnwyr gwahanol)

neu

8. Soniwch am bryd bwyd sy'n aros yn y cof i chi am resymau da neu ddrwg. Gallai fod yn eich cartref neu yn rhywle arall. Beth oedd yn ei wneud yn gofiadwy?
Penderfynwch ymlaen llaw pa agweddau ar y profiad y gallech eu trafod er mwyn cynnal y sgwrs e.e. y cwmni, y cyflwyniad, y lleoliad, y blas...

**Ysgrifennu**

9. Dychmygwch eich bod wedi cael pryd o fwyd yn *Dans le Noir* neu unrhyw fwyty arall. Ysgrifennwch adolygiad tua 300 gair addas i'w adael ar wefan y bwyty.

neu

10. Mae disgyblion wedi bod yn siarad am newidiadau sydd angen eu gwneud yn ffreutur eich ysgol; newidiadau ynglŷn â'r trefniadau a'r bwyd ei hun. Mae gennych chi nifer o syniadau pendant. Ysgrifennwch lythyr at Gyngor yr Ysgol yn cyflwyno eich syniadau.
(rhwng 1 ½ a 2 ochr tudalen – heb gynnwys y cyfeiriad ac ati)